Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

08/03/2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol) yn hybrid, Dydd Iau, 16 Mawrth 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 3 - 4)**

4. **Diweddariad Cyffredinol (Tudalennau 5 - 8)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol)
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU– TACSIS A MATERION ERAILL (ANSTATUDOL)
a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 06 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Euros Davies (Cadeirydd); y Cynghorwyr Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Paul Hinge, Gwyn James a John Roberts

Swyddogion yn bresennol: Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:20am-10:50am)

5 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Steve Davies, Endaf Edwards a Caryl Roberts am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Amanda Edwards am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei bod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

6 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu
Dim.

7 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Paul Hinge wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Materion yn codi
Dim.

8 Diweddariad Cyffredinol – Tacsis a materion eraill (Anstatudol)
Ystyriwyd y diweddariad cyffredinol ynghylch tacsis a materion eraill (Anstatudol). Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o waith yr Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

Rhoddwyd diweddariad ynghylch y canlynol:-

- Adolygu Prisiau Cerbydau Hacni (Tacsis)
- Gwrandawiad Tacsi - (Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976)

- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth: 2022-2027 - Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Tacsis, Deddfwriaeth a Diwygio Polisi, Diwygio Trwyddedu a Safonau Cenedlaethol ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, System Tocynnau a Chynllunio Siwrneiau Integredig

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth .

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd.

Nodwyd hefyd fod Gweithdy i'r Aelodau wedi ystyried yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027 gan ymateb iddo yn y ffordd briodol.

9 Unrhyw Fater Arall

CYTUNWYD y byddai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn paratoi dogfen gwmpasu i ystyried Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor. Dywedwyd y byddai modd cyflwyno'r Polisi Gorfodi gerbron y cyfarfod nesaf gan y byddai'n ddogfen ddefnyddiol i Aelodau newydd y Pwyllgor.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol)

Dyddiad y Cyfarfod: 16 Mawrth 2023

Teitl: Diweddariad Cyffredinol

Pwrpas yr Adroddiad: Er gwybodaeth

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Rhan 4 (Triniaethau Arbennig) Cynllun Trwyddedu Cenedlaethol Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio

Caiff 'triniaethau arbennig' eu diffinio yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Mae'r rhain yn driniaethau anfeddygol estheteg neu therapiwtig sy'n golygu rhwygo meinwe, croen neu bilen ludiog unigolyn a mewnosod nodwyddau, gemwaith, gwrthrychau neu inc neu bigment parhaol/lled-barhaol Mae gan y triniaethau hyn, felly, y gallu i niweidio iechyd pobl.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol o ran sicrhau safonau da a chynaliadwy wrth reoli heintiau ac arfer gorfodaeth gyson yn annigonol. Cyfyng yw'r safonau o ran atal a rheoli heintiau yn y diwydiant hwn ac ni chânt eu derbyn yn eang gan y sector. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982") yw'r prif fodd o orfodi safonau yn y sector hwn drwy gymhwyso cynllun cofrestru. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i awdurdodau lleol fabwysiadu'r cynllun hwn yn un gwirfoddol ac ni all y rheiny sydd wedi'i fabwysiadu wrthod cofrestru unigolion neu safleoedd oni bai eu bod wedi'u euogfarnu o drosedd o dan Rhan VIII Deddf 1982.

Nod y cynllun newydd yw lleihau heintiau a dileu arferion gweithio gwael, a bydd yn creu cofrestr gyhoeddus ganolog i ymarferwyr trwyddedig a safleoedd busnes cymeradwy.

Mae yn y cam olaf o newidiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i wella safonau o ran atal a rheoli heintiau yn y diwydiant.

Amcangyfrifir bod 3,516 o ymarferwyr yn gweithredu yng Nghymru y bydd gofyn iddynt gael eu trwyddedu, a 1,868 o safleoedd y bydd gofyn iddynt gael cymeradwyaeth o dan y cynllun trwyddedu mandadol newydd. Rhaid i ymgeiswyr lwyddo i gael Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau.

Lansiwyd ymgynghoriad 12-wythnos gan Lywodraeth Cymru i geisio barn pob rhanddeiliad gan gynnwys ymarferwyr, awdurdodau lleol a'r cyhoedd. Lansiwyd yr ymgynghoriad ym mis Ionawr 2023 a bydd yn cau ar 19 Ebrill 2023. Gellir dod o hyd i fanylion yr ymgynghoriad ar Special Procedures Licensing Scheme for Wales - Consultation document (gov.wales)

Perfformiad Blynyddol Trwyddedu - Adroddiad Cyffredinol

Yn ystod y cyfnod 01/02/2022 - 31/01/2023, mae'r tîm trwyddedu wedi parhau i dderbyn a phrosesu nifer fawr o geisiadau trwyddedu a cheisiadau i adnewyddu, trosglwyddo a diwygio trwyddedau. Mae'r tîm hefyd yn ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â'r ystod eang o feysydd trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn ychwanegol, mae'r tîm yn derbyn a phrosesu nifer fawr o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy'n aml yn gofyn am rywfaint o ymchwil a pharatoi er mwyn ymateb.

Ceir crynodeb o'r nifer o geisiadau am drwyddedau ac ymholiadau i'r gwasanaeth (ac eithrio ceisiadau trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005) yn y tabl isod:

Mathau o Drwyddedau a Gyhoeddir: Tacsis	**Nifer**
Tacsi / Cerbyd Hurio Preifat	138
Trwydded Yrru Ddeuol	76
Gweithredwr Hurio Preifat	4
	218

Mathau o Drwyddedau a Gyhoeddir: Trwyddedu Anifeiliaid	**Nifer**
Lletya Anifeiliaid	8
Lletya yn y Cartref	7
Anifeiliaid Gwyllt Peryglus	0
Siop Anifeiliaid Anwes	1
Magu Cŵn	32
Sefydliadau Marchogaeth	5
Sŵau	0
Anifeiliaid Perfformio - Newydd	3
	56

Mathau Eraill o Drwyddedau a Gyhoeddir: Amrywiol	**Nifer**
Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 - (Trosglwyddiadau)	3
Ceisiadau Deddf Cartrefi Symudol	5
Addurno'r Corff	3
Petrolewm	6
Ffrwydron	3
Dosbarthiad Ffilmiau	10
Deliwr Metel Sgrap	6
Casgliadau o Dŷ i Dŷ	9
Casgliadau Stryd	20
	65

Argymhelliad/Argymhellion:	Aelodau i dderbyn yr adroddiad hwn er gwybodaeth.
Rheswm dros yr argymhelliad:	Cynghori Aelodau etholedig ynghylch y gweithgarwch yr ymgymerwyd ag ef gan yr Adain Drwyddedu ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor a gwybodaeth berthnasol arall.
Fframwaith Polisi:	Mae'r swyddogaethau statudol a gyflenwir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen sylfaenol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb
Maes Gwasanaeth	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Pwerau Statudol:	Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw Reoliadau a wnaed o dan y Deddfau.
Papurau Cefndir:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams (Polisi a Pherfformiad)
Swyddog Adrodd:	Anne-Louise Davies (Safonau Masnach a Rheolwr Trwyddedu) & Gareth Rees (Uwch Swyddog Trwyddedu)
Dyddiad:	22 Chwefror 2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol